

## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Tîm Byw'n Iach ac Egniol yn yr Is-adran Gwella Iechyd, Atal ac Anghydraddoldebau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Sarah Murphy AS**  
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**

22 Tachwedd 2024

## **MEMORANDWM ESBONIADOL**

### **1. Disgrifiad**

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae cyfraith erlyn ar Labelu, Cyfansoddiad a Safonau Maeth yn cynnwys nifer o Reoliadau Gweithredu'r Comisiwn sy'n gysylltiedig â hwy. Yn ogystal, mae nifer o Offerynnau Statudol domestig sy'n gweithredu Cyfarwydddebau'r UE; a thua 65 o Reoliadau'r Comisiwn sy'n ymwneud ag awdurdodi honiadau iechyd ac Offerynnau Statudol domestig ym mhob gwlad sy'n gorfodi'r rheoliadau priodol.

3.2 Mae Rheoliad 1924/2006 yn darparu ei bod yn drosedd yng Nghymru i ddefnyddio honiad am faethiad neu iechyd heb awdurdod, h.y. un nad yw wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth. Mae Rheoliadau 2007 yn galluogi gofynion Rheoliad 1924/2006 a ddargedwir i gael eu gorfodi drwy gosbau troseddol (dirwy neu garchar).

3.3 Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Diben y Rheoliadau hyn yw cysoni'r gyfundrefn orfodi ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd â chyfundrefnau gorfodi eraill o ran Maeth, Labelu a Chyfansoddiad drwy gyflwyno cyfundrefn Hysbysiadau Gwella fel cam gorfodi cyntaf posibl yn hytrach na chyfyngu gorfodaeth i gosb droseddol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 16(1)(f), 17(2), 26(1)(a), 2(e) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i wneud y diwygiadau angenrheidiol i Reoliadau 2007 i adlewyrchu'r newidiadau hyn. Mae'r bwerau yn cael eu defnyddio i ddiwygio Rheoliadau 2007 i gyflwyno cyfundrefn hysbysiadau gwella sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n cael ei gynnig yn Lloegr.

### **5. Ymgynghori**

5.1 Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod

Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori'n agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd, yn uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioliadol, wrth lunio, gwerthuso a diwygio cyfraith bwyd, ac eithrio pan na fo brys y mater yn caniatáu hynny.

5.2 Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 8 wythnos rhwng 20 Medi a 15 Tachwedd 2023 i roi cyfle i bartion sydd â diddordeb wneud sylwadau ar y dull arfaethedig. [Cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

5.3 Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb i'r ymgynghoriad. [Cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd | LLYW.CYMRU](#)

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Fusnes a'r Effaith Reoleiddiol fel rhan o'r ymgynghoriad a chyhoeddir Asesiad Effaith Rheoleiddiol ochr yn ochr â'r rheoliadau.

# ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Tabl A

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y cynnig a ffeirir yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i gynllunio i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<b>Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 Diwygiad Arfaethedig</b>		
<b>Y dewis a ffeirir: Diwygio Rheoliadau i gyflwyno hysbysiadau gwella</b>		
<b>Cam:</b> Drafft - Ymgynghori	<b>Cyfnod gwerthuso:</b> 2024/25-2034/35	<b>Blwyddyn sail brisiau:</b> 2024/25
<b>Cyfanswm Costau</b> <b>Cyfanswm:</b> £0.08m <b>Gwerth presennol:</b> £0.078m	<b>Cyfanswm buddion</b> <b>Cyfanswm:</b> £0m <b>Gwerth presennol:</b> £0m	<b>Gwerth presennol net:</b> <b>-£0.078m</b>

## Cost Weinyddol

<b>Costau:</b> Bydd angen i adrannau safonau masnach awdurdodau lleol ar draws Cymru ymgysylltu â'r newid yn y rheoliadau a datblygu systemau a phrosesau sy'n gysylltiedig â chyflwyno hysbysiadau gwella a gwirio cydymffurfiaeth â nhw. Rydym yn tybio cost drosiannol o £7k yn seiliedig ar 8 awr i bob awdurdod lleol ar £40 yr awr ond dim newid i gostau rheolaidd ar draws y 22 awdurdod lleol. Rydym hefyd yn tybio y bydd busnesau bwyd a diod yn treulio amser yn ymgysylltu â'r ddeddfwriaeth gydag un rheolwr Ymchwil a Datblygu yn esbonio'r newidiadau i ddau reolwr/cyfarwyddwr corfforaethol. Mae hyn yn cyfateb i 2.1-3 awr o amser rheolwr Ymchwil a Datblygu a chyfanswm o 2 awr o amser rheolwr/cyfarwyddwr corfforaethol fesul busnes. Mae cymryd 6% o'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr yn ei hasesiad effaith (5-6% o gost Lloegr fel arfer) yn rhoi amcangyfrif isaf o £49k ac amcangyfrif uchaf o £112k gydag amcangyfrif canolog o £71k. Cyfanswm y costau ymgysylltu (cyhoeddus a phreifat) felly yw £78k (£7k+£71k)			
<b>Pontio:</b> £78k	<b>Rheolaidd:</b> £0k	<b>Cyfanswm:</b> £78k	<b>Gwerth presennol:</b> £78k
<b>Arbedion cost:</b> Efallai y bydd arbedion cost i fusnesau gan fod hysbysiadau gwella yn cynnig llwybr cydymffurfio â chostau is nag erlyniad. Er hynny, nid yw'r rhain wedi'u meintioli.			
<b>Pontio:</b> £0k	<b>Rheolaidd:</b> £0k	<b>Cyfanswm:</b> £0k	<b>Gwerth presennol:</b>

			£0k
Costiau gweinyddol net: Gwerth presennol £5k			

## Costau cydymffurfio

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau cydymffurfio ychwanegol gan fod byrdwn y ddeddfwriaeth yr un fath.			
Pontio: £0k	Rheolaidd: £0k	Cyfanswm: £0k	Gwerth presennol: £0k

## Costiau eraill

Dim			
Pontio: £0k	Rheolaidd: £0k	Cyfanswm: £0k	Gwerth presennol: £0k

## Costiau ac anfanteision heb eu mesur

Dim			
-----	--	--	--

## Manteision

Mae busnesau'n debygol o wynebu llai o fiwrocratiaeth a chostau is gan y gellir cyflwyno hysbysiadau gwella yn lle mynd yn syth i erlyniad. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn fwy parod i gyflwyno hysbysiadau gwella, felly gall lefel gyffredinol y gweithgarwch gorfodi gynyddu. Fodd bynnag, mae hwn yn ddefnydd cymesur o ddeddfwriaeth a fydd yn helpu busnesau i gadw at y gyfraith ac amddiffyn defnyddwyr rhag hawliadau anghywir. Nid yw newidiadau i nifer y gorfodaethau a'r costau neu'r buddion sy'n deillio o hynny i fusnesau wedi'u meintoli.	
Cyfanswm:	Gwerth presennol:

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Mae'r prif dybiaethau yn ymwneud ag awdurdodau lleol yn dod yn gyfarwydd â'r newid i'r ddeddfwriaeth. Rydym yn tybio y bydd busnesau'n ymgyfarwyddo trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus neu gamau gorfodi. Nid yw hyn wedi'i ymchwilio'n fanwl.
---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

## 7. Opsiynau

### Opsiwn 1: Gwneud dim

Daeth y Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd i rym yn 2007 yn dilyn Rheoliad 1924/2006 y CE. Eu nod yw rheoleiddio'r honiadau am faethiad ac iechyd a wneir am fwyd. Dylai siopwyr a defnyddwyr fod yn hyderus bod unrhyw honiadau a wneir gan weithgynhyrchwyr neu fanwerthwyr am gynhwysion neu fwydydd a werthir fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Dylid osgoi honiadau marchnata ffug sy'n gysylltiedig ag iechyd. Nod Rheoliadau 2007 oedd sicrhau bod honiadau am faethiad ac iechyd yn gywir a bod unrhyw honiadau a wneir yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth wyddonol.

Mewn achos o ddiffyg cydymffurfio, nododd Rheoliadau 2007 yn glir bod hyn yn drosedd sy'n agored i erlyniad. Byddai erlyniad o'r fath yn cael ei gyflwyno gan awdurdodau lleol o dan eu cylch gwaith safonau masnach a bwyd. Er y gallai awdurdodau lleol fod yn amharod i symud yn syth i erlyniad, nid oedd y Rheoliadau'n ddarparu unrhyw ddull gorfodi amgen.

Ystyrir mai ffordd fwy cymesur o sicrhau cydymffurfiaeth fyddai i awdurdodau lleol roi hysbysiad gwella i ddechrau yn hytrach na gorfod bwrw ymlaen yn syth i erlyniad. Mae hysbysiadau gwella yn offeryn cydnabyddedig sydd eisoes yn bodoli mewn meysydd eraill o gyfraith maeth. Mae cyfle i gysoni'r Honiadau am Faethiad ac Iechyd i ddarparu ar gyfer hysbysiadau gwella.

Wrth wneud dim, nid oes cyfle i ddarparu dull arall ar gyfer delio â diffyg cydymffurfio cyn symud i erlyniad. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn amharod i fynd yn syth i erlyniad felly gall busnesau wneud honiadau ffug heb gael eu herio, a hynny am fwy o amser na phe bai hysbysiadau gwella yn opsiwn.

### Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau i gyflwyno hysbysiadau gwella

Nod yr opsiwn hwn yw diwygio'r Rheoliad i gynnwys darpariaeth ar gyfer hysbysiadau gwella fel cam cyn symud i erlyniad ffurfiol. Mae hyn eisoes wedi'i wneud yn Lloegr. Bydd yn cysoni trefniadau rheoleiddio Cymru a Lloegr yn y maes hwn a fydd o fudd i fusnesau sy'n gweithredu yn y ddwy awdurdodaeth.

### Opsiynau Amgen a Ystyriwyd

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill.

## 8. Costau a manteision

### 8.1 Crynodeb o'r Costau

Mae'r prif gostau yn rhai gweinyddol ymhlith awdurdodau lleol a busnesau bwyd a diod a fydd yn gorfod dod yn gyfarwydd â'r newid i'r rheoliad yn ogystal â diweddarau eu systemau a'u prosesau i gyflwyno hysbysiadau gwella. Er mwyn amcangyfrif y costau trosiannol hyn, rydym yn tybio 8 awr o amser fesul awdurdod lleol (22 awdurdod lleol yng Nghymru) yn y

cyfnod pontio wedi'i luosi gyda'r cyflog fesul awr wedi'i uwchraddio, sef £40.01 ar gyfer y Swyddfa Safonau Masnach. Mae hyn yn rhoi'r gost am 8 awr o waith fel £320, neu £7041 ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ar gyfer busnesau, rydym yn dibynnu ar yr amcangyfrifon a gyfrifwyd yn yr asesiad effaith yn Lloegr sy'n tybio bod un rheolwr Ymchwil a Datblygu yn esbonio'r newidiadau i ddau reolwr/cyfarwyddwr corfforaethol. Mae hyn yn cyfateb i 2-3 awr o amser rheolwr Ymchwil a Datblygu a chyfanswm o 2 awr o amser rheolwr/cyfarwyddwr corfforaethol fesul busnes. Mae cymryd 6% o'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer Lloegr yn ei hasesiad effaith (5-6% o gost Lloegr fel arfer) yn rhoi amcangyfrif isaf o £49k ac amcangyfrif uchaf o £112k gydag amcangyfrif canolog o £71k. Cyfanswm y costau ymgyfarwyddo (cyhoeddus a phreifat) felly yw £78k.

Nid ydym yn rhagweld unrhyw gostau eraill i fusnesau bwyd sy'n dal i orfod cydymffurfio â'r Rheoliad.

## **8.2 Crynodeb o'r Manteision**

Nid yw'r buddion hyn wedi cael eu mesur. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn croesawu'r ffaith y bydd ganddynt dull gweithredu newydd ar gael iddynt ar ffurf hysbysiadau gwella. Mae hyn yn caniatáu dull mwy cydweithredol o ymdrin â gwelliant gyda'r diwydiant yn hytrach na'r dull gwrthwynebol o symud yn uniongyrchol i erlyniad gyda'i gostau cysylltiedig.

Efallai y bydd busnesau hefyd yn croesawu'r cyfle i ymateb i hysbysiadau gwella yn hytrach na wynebu costau a straen erlyniad. Bydd cysoni rheoleiddio rhwng Cymru a Lloegr hefyd yn cael ei groesawu gan fusnesau sy'n gweithredu yn y ddwy awdurdodaeth. Nid yw unrhyw ostyngiad mewn costau busnes o ganlyniad i lai o erlyniadau neu fygythiadau o erlyniadau wedi'i feintoli.

O ran cydymffurfiaid cyffredinol, mae cyfle o hyd i symud i erlyniad os anwybyddwyd hysbysiadau gwella. Mae hyn yn golygu y bydd y ddeddfwriaeth yn dal i ymdrin â throeddwy'r penderfynol. Ar y sail hon, ni ragwelir y bydd unrhyw ostyngiad mewn cydymffurfiaeth o ganlyniad i'r newid.

## 9. Aseidiadau Effaith

Opsiwn 1: Busnes fel Arfer

Opsiwn 2: Diwygio'r Rheoliadau i gyflwyno hysbysiadau gwella

Tabl 1: Crynodeb o gostau a manteision - Opsiwn 2 (£m)

Y grŵp dan sylw	Effaith	Gwerth presennol
Awdurdodau Lleol	Pontio - Ymgysfarwyddo	-0.007
	Costau gweinyddol parhaus	
	Colli Elw	
Busnesau	Pontio - Ymgysfarwyddo	-0.071
	Costau gweinyddol parhaus	
	Colli Elw	
<b>Cyfanswm effaith ar y sector cyhoeddus a'r sector preifat</b>		<b>-0.078</b>
<b>Gwerth Presennol Net</b>		<b>-0.078</b>

## 10. Adolygiad ar ôl gweithredu

Dylid cynnal adolygiad ar ôl gweithredu yn 2027.